**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Ardal Bryn y Cwm a ddelir yn Llanddewi Ysgyryd Neuadd Bentref, Heol yr Eglwys, Nr. Y Fenni. NP7 8AW ar Dydd Mercher 12 Hydref, 2016 am 2.00 pm**

**MYNYCHWYR:** Y Cynghorydd Sir : D.L. Edwards (Cadeirydd)

Cynghorwyr Sir: R. Chapman, M. Hickman, S. Howarth, D. Jones, M. Powell, K. Williams

**HEFYD YN BRESENNOL:**

| | | |
|---|---|---|
| G. Thomas | - | Llanover Community Council |
| J. Warren | - | Team Abergavenny |
| P. Johns | - | Team Abergavenny |
| J. Barnes | - | CAIR |
| A. Michie | - | Team Abergavenny |
| C. Woodhouse | - | Abergavenny Town Council |
| S. Woodhouse | - | Abergavenny Town Council |
| N. Tatum | - | Abergavenny Town Council and Team Abergavenny |
| Tudor Thomas | - | Abergavenny Town Council and Team Abergavenny |
| M. Bartlett | - | Llanddewi Skirrid resident |

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Will Mclean | Head of Democracy, Engagement and Improvement |
| Deb Hill-Howells | Head of Community Led Delivery |
| Debbie McCarty | Whole Place Manager |
| Richard Williams | Democratic Services Officer |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr Sir R. Harris, G. Howard, S. Jones, P. Jordan, J. Prosser

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant gan yr Aelodau.

2. **Cyhoeddiad y Cadeirydd**

Ar ran Pwyllgor Ardal Bryn y Cwm, diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Cyflenwi a Arweinir gan y Gymuned a'i thîm am y gwaith a gyflawnwyd i sicrhau bod yr Eisteddfod yn llwyddiant. Dywedodd y Pennaeth Cyflenwi a Arweinir gan y Gymuned y byddai'n trosglwyddo'r wybodaeth hon i'r tîm.

3. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd.**

Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau o'r cyhoedd oedd yn bresennol i osod cwestiwn i'r Pwyllgor Ardal, neu i godi materion barai bryder:

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Ardal Bryn y Cwm a ddelir yn Llanddewi Ysgyryd Neuadd Bentref, Heol yr Eglwys, Nr. Y Fenni. NP7 8AW ar Dydd Mercher 12 Hydref, 2016 am 2.00 pm**

### Diogelwch ar y Ffyrdd – Llanddewi Skirrid

Hysbysodd preswylydd lleol y Pwyllgor Ardal fod cynllun wedi'i lunio ddwy flynedd yn ôl i wella amodau diogelwch ar y ffyrdd drwy Bentref Llanddewi Skirrid. Roedd pob arwydd ac eithrio un wedi'u codi. Fodd bynnag, wedi cysylltu ag Adran y Priffyrdd , hysbyswyd y preswylwyr bod yr holl arwyddion wedi'u cwblhau. Roedd preswylwyr wedi mynegi pryder ynghylch y mater hwn gan nodi bod yr holl arwyddion heb eu cwblhau.

Hysbysodd yr Aelod lleol dros Mardy y preswylydd y byddai'n cydlynu ag Adran y Priffyrdd ynghylch y mater hwn.

### Diweddariad CAIR

Cyfleodd Jenny Barnes y wybodaeth ganlynol i'r Pwyllgor Ardal:

- Bydd CAIR yn cynnal cyfarfod yn Neuadd y Dref, Y Fenni ar 13eg Hydref 2016 ynghylch pa welliannau oedd yn cael eu gwneud ar gyfer pobl anabl. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol.

- Roedd angen mwy o waith i wella'r ymgynghori rhwng cyngor Sir Fynwy a phobl anabl.

Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor Ardal y cynhelir cyfarfod gyda phobl anabl, wedi'i drefnu gan Heddlu Gwent, yng Nghanolfan Tudor Day ar ddydd Gwener, 14eg Hydref 2016 am 11.30am. Gellid trafod y materion a godwyd gan Jenny Barnes yn y cyfarfod hwn.

4. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.**

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion Pwyllgor Ardal Bryn y Cwm dyddiedig 13eg Gorffennaf 2016 gan y Cadeirydd.

5. **Derbyn adroddiad diweddaru gan Dîm y Fenni ar y cynnydd hyd yma.**

Derbyniasom adroddiad diweddaru gan Dîm Y Fenni ar y cynnydd wnaed hyd yn hyn. Darparwyd ar gyfer y Pwyllgor Ardal hefyd fanylion achosion busnes a gafodd eu gwrthod yn erbyn y gronfa cyllid cyfalaf o £30,000 a oedd ar gael i wella Canol Tref y Fenni yn barod ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Amlinellwyd yr achosion busnes fel:

- Canopi yn Neuadd y Dref, Y Fenni.
- Canolfan Gymunedol Y Fenni – Cais am gronfeydd a Chynllun Busnes.
- Cynllun Busnes ar gyfer Gosod Nenbont Oleuo yn Theatr y Bwrdeistref, Y Fenni.
- Stondinau Marchnad Newydd yn y Farchnad Dan Do.

Amlinellodd y Tîm yn ogystal eu barn ar y canlynol:

- Lle Cyfan – mae angen gosod mecanwaith mewn lle i nodi lle gall Tîm Y Fenni ddarparu cymorth a bod yn gynaliadwy yn y Dref.

- Mae angen cael mandad democrataidd lle gall Tîm y Dref weithio mewn cydweithrediad gydag Aelodau etholedig.

- Gobeithid y darperid cyllid ychwanegol ar gyfer Pwyllgorau Ardal..

- Bydd Tîm y Dref yn mabwysiadu dull mwy ffurfiol i brosesu'i gynllun blynyddol ac fe'i cysylltir â'i gynllun pum mlynedd a'i gyflwyno i Bwyllgor Bryn y Cwm i'w ystyried. Mae Tîm y Dref yn ystyried unwaith y caiff ei gymeradwyo bydd yn galluogi'r Tîm i wneud ceisiadau am gyllid o ffynonellau addas.

Wedi derbyn yr adroddiad a manylion yr achosion busnes a wrthodwyd, nodwyd y wybodaeth ganlynol:

- Gall Cynghorau Tref/Cymuned gael rhan yng Nghynllun Llesiant ehangach Cyngor Sir Fynwy. Cyflawnir asesiad llesiant yn Sir Fynwy i nodi prif feysydd achosion agored i niwed yn y Sir.

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd parthed y £30,000 o gyllid cyfalaf a fu ar gael i Dîm y Dref i wella'r dref ar yr adeg yn arwain at yr Eisteddfod, nid oedd y cyllid hwn bellach ar gael.

- Yn Chwefror 2015, roedd y Cyngor Sir wedi cytuno i ddiddymu'r penderfyniad a gymerwyd yn 2010 i adeiladu llyfrgell newydd ar safle'r hen farchnad wartheg, Y Fenni, gan ryddhau cyllid o £3.433m. O'r swm hwn, roedd £2.2m ar gael i ddatblygu Hyb Y Fenni. Mae swm o hyd at £50,000 i gael ei rhyddhau i ariannu'r costau i gwblhau'r dyluniadau manwl a'r achos busnes i'w cyllido gan fenthyca darbodus.

- Ystyriwyd a ellid cymryd cyllid yn ôl o'r farchnad newydd ym Mhenpergwm gyda'r bwriad o ddarparu cyllid ar gyfer rhai o'r achosion busnes a amlinellwyd gan Dîm Y Fenni. Parthed yr achosion a gyflwynwyd yn flaenorol, rhoddwyd manylion ynghylch paham nad oeddent yn addas ar gyfer y gronfa gyllid hon neu paham na chyfarfyddent â'r meini prawf.

- Nodwyd bod cyllid Adran 106 yn cael ei adolygu a gobeithid y byddai'r cyllid hwn yn cael ei ail-alinio i fod yn gyfrifoldeb Pwyllgorau Ardal.

**Penderfynasom:**

**(i) wneud cais i'r Cabinet y byddai unrhyw gyllid a fyddai'n weddill o'r £2.2m yn cael ei ryddhau ar gyfer prosiectau yn nhref Y Fenni;**

**(ii) fod Cadeirydd Pwyllgor Ardal Bryn y Cwm, Pennaeth Llywodraethiant, Ymgysylltu a Gwelliant a Phennaeth Cyflenwi a Arweinir gan y**

**Gymuned, yn cwrdd â chynrychiolwyr o Dîm Y Fenni gyda'r bwriad o wella cyfathrebu.**

6. **Diweddariad llafar ar ddatblygu Hyb y Fenni.**

Derbyniasom ddiweddariad geiriol gan Bennaeth Cyflenwi a Arweinir gan y Gymuned parthed datblygu Hyb yn Y Fenni. Wrth wneud hynny nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd adroddiad ynghylch y mater hwn wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llawn yng Ngorffennaf 2016.
- Mae swm o hyd at £50,000 i'w rhyddhau i ariannu'r costau o gwblhau'r dyluniadau manwl a'r achos busnes i'w cyllido gan fenthyca darbodus.
- Nodir costau a llinellau amser.
- Sefydlir gweithgor gyda phartneriaid perthnasol i herio syniadau.
- Yn dilyn hyn cynhelir cyfnod o ymgynghori.
- Yn dilyn adborth, cyflwynir y cynlluniau i'r Cyngor Llawn yng ngwanwyn 2017.

**Penderfynasom dderbyn y diweddariad geiriol a nodwyd ei gynnwys.**

7. **Adolygiad ar Lywodraethiant Cymunedol.**

Rhoddodd Pennaeth Llywodraethiant, Ymgysylltu a Gwelliant adroddiad i ddiweddaru Aelodau ar y modd mae'r Cyngor yn newid ei berthynas gyda Chynghorau Tref a Chymuned.

Nodwyd dewisiadau ar gyfer strwythur llywodraethiant cymunedol yn y dyfodol, fel a ganlyn:

- Dewis 1 – Status quo – Pwyllgorau Ardal a Byrddau Rhaglen yn cyd-fodoli heb unrhyw berthynas ffurfiol ond bod ganddynt gynrychiolaeth.
- Dewis 2 – Cedwir y Pwyllgorau Ardal fel yr unig strwythur gyda chynnydd mewn aelodau cyfetholedig o'r gymuned..
- Dewis 3 – Pwyllgorau Ardal heb unrhyw gynrychiolaeth o'r cyhoedd.
- Dewis 4 – Pwyllgor Ardal gyda grŵp ffocws o'r ardal leol.
- Dewis 5 – Bwrdd Rhaglen heb Bwyllgor Ardal.
- Dewis 6 – Bwrdd Rhaglen gyda chynrychiolaeth gyfyngedig a diffiniedig o'r aelodau etholedig.

- Dewis 7 – Pwyllgor Ardal Cymunedol yn unol â'r Mesur Llywodraeth Leol – dim ond dau yn Sir Fynwy, un yn y gogledd ac un yn y de.

Nodwyd mai'r dewis ffafriedig oedd Dewis 2 ond gyda'r gwahoddiad ychwanegol i gynrychiolydd unigol o bob un o'r Cynghorau Cymuned neu Dref yn yr ardal honno.

Wedi ystyried yr adroddiad, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mewn ymateb i gwestiynau a godwyd ynghylch gweithio mewn clwstwr, dywedodd Pennaeth Llywodraethiant, Ymgysylltu a Gwelliant fod y Prif Weithredwr wedi gwneud ymrwymiad y bydd gweithio mewn clwstwr yn digwydd a disgwylir hyn i uno gyda llywodraethiant cymunedol.

- Mae'r model wedi'i ganoli o gwmpas y pum tref. Felly mae cael pum pwyllgor ardal yn ddewis da.

- Mae Pwyllgor Ardal Bryn y Cwm yn gefnogwr brwd o gadw strwythur y Pwyllgor Ardal.

- Awgrymwyd bod:
  - Pwyllgorau Ardal yn cyfarfod bob dau fis (chwe chyfarfod y flwyddyn)
  - Dylai'r Cadeiryddion fod yn Gynghorwyr Sir.
  - Cynrychiolaeth ychwanegol o'r Cyngor Cymuned.
  - Cynnwys y Fforwm Agored Cyhoeddus fel eitem ar yr agenda.
  - Diddymu'r Byrddau Rhaglen.
  - Ystyried ailenwi Pwyllgor Ardal Bryn y Cwm.
  - Mae'n rhaid i swyddogion ymgynghori gyda Phwyllgorau Ardal cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.
  - Cyllid blynyddol i barhau.
  - Cyfethol aelodau o'r cyhoedd i gefnogi'r Cynllun Lle Cyfan.

- Mae Dewis 2 yn caniatáu cynnwys Corff archebol arall.

Cynigiwyd bod y Pwyllgor Ardal yn cefnogi Dewis 2 gyda'r gwahoddiad ychwanegol i un cynrychiolydd o bob Cyngor Cymuned neu Dref yn yr ardal.

Cymerwyd pleidlais a phleidleisiodd y Pwyllgor Ardal yn unfrydol i gefnogi'r cynnig.

**Penderfynasom, felly, gefnogi Dewis 2 gyda'r gwahoddiad ychwanegol i un cynrychiolydd o bob Cyngor Cymuned neu Dref yn yr ardal honno.**

**8. Diweddariad - Grantiau Cyfalaf Ardal**

Rhoddodd y Pennaeth Cyflenwi a Arweinir gan y Gymuned ddiweddariad byr i'r Pwyllgor Ardal ynghylch y Grantiau Cyfalaf Ardal.

Nodwyd y byddai'r cylch nesaf o gyllid yn cychwyn yn fuan gyda £5000 pellach ar gael i'w ddyrannu. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai'r holl geisiadau a dderbynnir yn cael eu

cyfeirio at y Pennaeth Cyflenwi a Arweinir gan y Gymuned i'w hasesu erbyn 31ain Rhagfyr 2016 gyda'r bwriad y byddai'r ceisiadau'n cael eu hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Ardal ar 25ain Ionawr 2017.

**9. Rhaglen Waith y Dyfodol.**

Penderfynasom dderbyn a nodi Rhaglen Waith Pwyllgor Bryn y Cwm.

**10. Cyfarfod nesaf.**

Cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Bryn y Cwm ar ddydd Mercher 25ain Ionawr 2017 am 2.00pm yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Y Fenni, ar yr amod bod y Siambr yn rhydd.

**Y cyfarfod i ben am 3.45pm.**